FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC SIR GAERFYRDDIN

CYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS AR Y PRYD – ADRAN HYN

1. Cystadleuaeth agored i ddau dîm o bob Clwb am y cwpan, gall y Clwb ddanfon mwy na dau dîm, neu unigolion yn unig.

2. Rhaid i bob tîm gynnwys 3 aelod sydd yn **26 mlwydd oed neu o dan ar 1af Medi 2003** a rhaid iddynt fod yn aelodau llawn o Glwb sy'n gysylltiedig â Ff.C.C.Ff.I.

3. Y DREFN:
   (i) Timau i gynnwys Cadeirydd, Cynigydd a Gwrthwynebydd.
   (ii) Rhennir y tîm fel y bydd y Cadeirydd, y Cynigydd a'r Gwrthwynebydd yn gweithredu o fewn gwahanol dîmau.
   (iii) Hysbysir yr holl dîmau ar y diwrnod ynghlych eu pynciau trafod. Awr cyn i'r cystadlu dechrau bydd y Cynigydd a'r Gwrthwynebydd yn cwrdd â'u gilydd i derbyn eu pynciau trafod. Darperir deunydd ymchwil ar eu cyfer.
   (iv) Ymdrinnir â'r gystadleuaeth yn yr un modd â chyfarfod ffurfiol.
   (v) Caniateir i'r cystadleuwyr gymryd eu nodiadau eu hunain I GYFEIRIO ATYNT tra'u bod yn cystadlu, ond cosbir unigolion am ddefnyddio nodiadau yn ormodol. Ni chaniateir defnyddio unrhyw gyfeirlyfrau na phapurau eraill tra'n cystadlu.

   Dull:
   (i) Y Cadeirydd i agor y cyfarfod, gan gyflwyno'r ddadl a'r dadleuwyr ac yna galw ar y Cynigydd i gyflwyno'i gynnig i'w drafod. Yna bydd ef/hi yn gwahodd y Gwrthwynebydd i ymateb.
   (ii) Yna'r Cadeirydd i agor y ddadl gan ganiatau pum munud yn unig i siaradwyr o'r llawr.
   (iii) Yna'r Cadeirydd i ofyn i'r GWRTHWYNEBYDD GRYNHOI
   (iv) Y CYNIGYDD i siarad am y tro olaf.
   (v) Y Cadeirydd, mor gryno ac mor ddiduedd â phosib, i grynhoi'r ddadl gan gloi drwy atgoffa aelodau o union delerau'r cynnig.
   (vi) Caniateir i'r Cadeirydd yn ôl ei d/disgresiwn benodi cyfrifwyr.
   (vii) Cynhelir y Bleidlais drwy godi dwylo.
   (viii) Y Cadeirydd i gyhoeddi canlyniad y Bleidlais ac i gyhoeddi bod y cyfarfod ar ben.

4. AMSERU: Rhennir yr amser fel a ganlyn:-

Cadeirydd	Agor	-	3 munud
	Dadl	-	dim mwy na 5 munud
Cynigydd		-	5 munud
Gwrthwynebydd		-	5 munud
Gwrthwynebydd (ymateb terfynol)		-	4 munud
Cynigydd (ymateb terfynol)		-	4 munud

Pwyntiau cosb – Tynnir un marc am bob hanner munud (neu ran o hanner munud) a ddefnyddir dros yr amser a ganiateir.

5. Y MARCIAU:

Cadeirydd (Cadeiryddiaeth 25/Crynhoi 15)		40
Cynigydd	25	
Gwrthwynebydd	25	
Cynigydd (ansawdd y ddadl wrth grynhoi)		30
Gwrthwynebydd (ansawdd y ddadl wrth grynhoi)		30
	150	

6. Mae penderfyniad y Beirniad yn derfynol.

7. Y Beirniaid fydd yn dewis y tîm i gynrychioli'r Sir yng Nghystadleuaeth Cymru.

8. Mae gan C.Ff.I. Sir Gâr yr hawl i addasu neu ddileu unrhyw rai o'r rheolau uchod.